

y dinesydd

Mawrth 2001

PAPUR BRO DINAS CAERDYDD A'R CYLCH

Rhif 261

Draw dros y don i Batagonia

Rhwng Ebrill 6-28, bydd 20 o ddisgyblion Blwyddyn 11, Ysgol Gyfun Glantaf a 6 o'u hathrawon ar daith yn y Wladfa Gymreig ym Mhatagonia. Arweinir y daith gan Bob Pugh, Cyfarwyddwr Canolfan Addysg Allanol y Storey Arms ar Fannau Brycheiniog, sy â pherthnasau yn byw yn y Dyffryn a'r Andes. Mae rhaglen brysur o'u blaenau rhwng yr ymweliadau hanesyddol, teithiau byd natur, cysylltiadau addysgiadol, nosweithiau cymdeithasol ac ati. Tra

byddan nhw yn yr Andes, byddan nhw'n ymweld â Pharc Cenedlaethol Los Alerces, ymweld â Chile a dringo pedwar mynydd sydd ag enwau a chysylltiadau Cymreig sef Mynydd Llwyd, Pico Tomos, Mynydd Edwin a Gorsedd y Cwmwl. Pob hwyl i'r criw ar y daith. Diau, cawn yr hanes ar dudalennau'r *Dinesydd* wedi iddyn nhw ddychwelyd.



Yn y llun o'r chwith i'r dde: Siân Harries, Bob Puw, Gareth Norton, Rhiannon Evans, Angharad Davies, Owen Gower, Luke Maxwell. Y llun trwy ganiatâd y *Western Mail & Echo*.



HSBC yn cefnogi Menter Caerdydd

Mae HSBC wedi rhoi grant o £1000 i Fenter Iaith Caerdydd fel rhan o'i gynllun 'Grantiau Banc HSBC i Ddysgwyr'.

Dosberthir yr arian i ddysgwyr yn ardal Caerdydd gan Y Fenter.

Siân Elin HSBC yn cyflwyno slec am £1000 i Gareth Kiff, Swyddog Datblygu Menter Iaith Caerdydd yn Neuadd y Sir, Caerdydd ar Nos Wener 2 Chwefror 2001.

Gŵyl Padrig Sant, yng Nghaerdydd

Trefnir seremoni goffa Newyn Mawr Iwerddon ym Mynwent Cathays Caerdydd am 11.00 am, fore Sadwrn, 17 Mawrth o flaen y Gofeb Genedlaethol ar ffurf Croes Geltaidd a godwyd gan Fforwm Cymru y Newyn yn 1999 i nodi 150 o flynyddoedd ers y digwyddiad trist hwnnw.

Traddodir darlith "O newyn i wled", agweddau ar hanes "y Teigr Celtaidd" gan yr Athro Cormac Ó Gráda, Coleg y Brifysgol, Dulyn dan nawdd fforwm Cymru y Newyn a Chanolfan Prifysgol Caerdydd ar gyfer Addysg Gydol Oes am 7.30 ar nos lau, 22 Mawrth yn Narlithfa 0.22 Adeilad y Gyfraith, Rhodfa'r Amgueddfa, Parc Cathays. Y Cadeirydd fydd Conor O'Riordan, Prif Gonswl Iwerddon yng Nghymru.

Am ragor o wybodaeth cysylltwch â Barry Tobin ar 029 2034 4351.



Y Dinesydd

Mawrth 2001, Rhif 261.

ISSN 1362-7546

Cyhoeddiir *Y Dinesydd* gan Bwyllgor *Y Dinesydd*.
Fe'i cysodir gan PPS, 139 Station Road, Ystum Taf, Caerdydd,
a'i argraffu gan Wasg Morgannwg, Mynachlog Nedd.

Golygydd y rhifyn hwn:

Gwilym E. Roberts

Golygydd y rhifyn nesaf:

Gwilym E. Roberts

NEWYDDION, ERTHYGLAU, ETC.

Anfonwch ddefnyddiau ar gyfer rhifyn Ebrill 2001 at un o'r
gohobwyr canlynol erbyn 19 Mawrth:

Gwilym E. Roberts, 6 Heol Wen, Rhiwbina,

Caerdydd CF14 6EF (Ffôn: 2069 3254)

neu at Gadeirydd Pwyllgor *Y Dinesydd*:

Dr E. Wyn James, 16 Kelston Rd., Yr Eglwys Newydd,

Caerdydd CF14 2AJ (Ffôn: 2062 8754,

E-bost: JamesEW@caerdydd.ac.uk).

DOSBARTHU

Anfonwch unrhyw sylwadau am ddsbarthu at:

Mr Robin Jones, 1 Kings Road, Radur, Caerdydd (Ffôn: 2084 2929).

HYSBYSEBION

Mae'r *Dinesydd* yn ffordd ddelfrydol o hysbysebu ac mae incwm
hysbysebion yn hanfodol at gynnal y papur. Dylai pawb sydd
am hysbysebu gysylltu â:

Menna Gwyn, 41 Wingfield Road, Yr Eglwys Newydd,

Caerdydd (Ffôn: 029-2041 8270; E-bost: MennaGwyn@aol.com)

CYFRANIADAU ARIANNOL

Mae ein trysorydd, Mr Rheon Tomos, 37 Heol Felindra, Yr
Eglwys Newydd, Caerdydd CF14 7JE (Ffôn: 2040 4906) yn
croesawu unrhyw gyfraniad bob amser. Cofiwch fod *Y Dinesydd*
yn dibynnu am ei barhad ar gyfraniadau'r sawl sy'n ei ddarllen.

FFURFLEN CYFRANNU

Amgaeaf rodd o £ _____ fel cyfraniad at gynnal
Y Dinesydd.

Enw:

Cyfeiriad:

..... Cod Post:

Rhif Ffôn:

Anfoner y ffurflen hon at Mr Rheon Tomos,
37 Heol Felindra, Yr Eglwys Newydd, Caerdydd CF14 7JE.

FFURFLEN TANYSGRIFIO

Amgaeaf danysgrifid blwyddyn o £15 er mwyn derbyn
Y Dinesydd drwy'r post yn rheolaidd.

Enw:

Cyfeiriad:

..... Cod Post:


Rhif Ffôn:

Anfoner y ffurflen hon at Mr Rheon Tomos,
37 Heol Felindra, Yr Eglwys Newydd, Caerdydd CF14 7JE.

CROESAIR gan Rhian Williams

Rhif 21

Mawrth 2001



Ar Draws

1. Sut ras sy'n ddrys? (6)
4. 'O'r naill _____ i'r llall yn 'hedeg;
O na bawn fel deryn bach!' (Ceiriog) (4)
8. 'Mae fy nghalon _____
Unwalth eto i lyny fry.' (W.W.) (2,6)
9. Priodol i'r dyn cyntaf gael dechrau sicr (4)
11. Cam ceffyl i gael y gwir yn Lloegr heb yr olaf o'r barnwyr (3)
12. Dal Eifion yn creu murddunod (9)
13. Gwyllo llw y gād yn newid cyfeiriad (6)
15. Calon letysen, te a phen bresych - dyna rodd
i ddangos diolchgarwch! (6)
18. 'Ac yma llechaf nes mynd trwy
Bob _____ nen.' (6,2,1)
19. Wele enfys yn codi o'r baw (3)
20. Cewch de yn hwn gyda Kate (4)
21. '... Damwain a hap
Yw fy mod yn ei _____ byw' (THPW) (6,2)
22. Sŵn is na malu (4)
23. 'Canys yr ydych yn degymu'r _____ a'r anis,
a'r cwmin ac a adawsoch heibio y pethau trymach
o'r gyfraith.' (Mathew) (6)

I Lawr

1. Ar beth y ceir offrmw? (5)
2. Wedi torri lawnt y dref a ddewn i'r lle yma (10)
3. Ar yn ail uwch hen lyfrau mae'r man fry (6)
5. 'Ti a _____ iddynt anadl
A chymeraist hi yn ôl.' (Gwenallt) (7)
6. Ceir hedyn rhywbeth mawr o ormes enbyd (5)
7. Adeiladu caer a chan darn o bren (6)
10. Planhigyn yn swno fel darlun o neidiwr! (3,1,6)
14. Ie! Glo un ar dân yn rhoi llewyrch (7)
16. Anrhydedd adar Tomos (6)
17. Miri gwyllt, a ni yn yr Eidal (6)
18. 'Fel na chaffo'r pechod _____
Mwg a tharth y pydew mawr.' (W.W.) (5)
19. E-byst amrywiol ynglŷn â'r llysiuyn coch (5)

Atebion Croesair 20

Ar draws: 2. Dinam; 5. Llais; 7. Heol; 8. Dilewyrch; 9. Gwasgfa; 11. Fflagi; 12.
Dan bridd tramor; 15. Agen; 17. Egwyddor; 19. Beth; 21. Rhian; 22. Cnau;
23. Robin.

I lawr: 1. Treigla; 2. Dol; 3. Nodog; 4. Moliant; 5. Llyw; 6. Iorwg; 10. Ar ben;
11. Ffiadid; 13. Iselder; 14. Oernadu; 16. Gwern; 18. Wyneb; 20. Ysu; 21.
Rhan.

Derbyniwyd unarddeg ymgais a saith ohonynt yn gywir. Danfonir y tocyn
llyfr y tro hwn i Rhodri Jones, Dyfodwg, St Cyres Rd. Penarth. Cafwyd yr
atebion cywir eraill gan Gwenllian Gwyn Jones a Buddug Roberts, Yr Eglwys
Newydd, Gwenda Hopkins, Llanisien, Eira Jones, Y Mynydd Bychan; Iona
Warmingtton, Llandaf a Carys Humphries, Bangor.

Calendr y Dinesydd

Llun, 5 Mawrth

Cymdeithas Gymraeg Rhiwbina: Noson yng nghwmni Merched y Garth (Arweinydd: Llinos Swain), yng nghapel Bethany, Rhiwbina am 7.30 p.m.

Iau, 8 Mawrth

Cyngor Eglwys Cymraeg Caerdydd: 'Tro ymhlith Cristnogion yr India'. Sgwrs gan y Parch. Emyr Gwyn Evans yn Ebeneser, Heol Siarl, am 7.30 p.m.

Gwener, 9 Mawrth

Cymdeithas Cymry'r Eglwys Newydd: Swper Gwyl Ddewi, yn festri Bethel, Heol Penllin, am 7.30 p.m. Gwestai: Parch. Aled Edwards.

Llun, 12 Mawrth

Merched y Wawr, Cangen Caerdydd: Noson y Dysgwyr, yng nghwmni Falmi Griffiths yn festri Eglwys Minny Street, am 7.30 p.m.

Mawrth, 13 Mawrth

Recordio 'Talwrn y Beirdd' (BBC Radio Cymru) yn yr Eglwys Norwydd, Bae

Caerdydd, am 7.00 p.m. Mynediad am ddim. Trefnir y noson gan Bwyllgor Llenyddiaeth Eisteddfod yr Urdd, Caerdydd a'r Fro.

Gwener, 16 Mawrth

Cylch Llyfryddol Caerdydd: 'Golygu Cofnod y Cynulliad' gan John Emyr, am 7.00 p.m., yn festri Eglwys y Crwys, Richmond Road, Caerdydd.

Mawrth, 20 Mawrth

Darlith Goffa G. J. Williams, Adran y Gymraeg, Prifysgol Caerdydd: Darlith gan yr Athro John Rowlands, Aberystwyth, am 5.30 p.m. yn Ystafell X/0.04, Estyniad Adeilad y Dyniaethau, Safle Rhodfa Colum, Prifysgol Caerdydd.

Mercher, 21 Mawrth

Cymdeithas Tŷ'r Cymry: Sgwrs gan Steve O'Regan, yn Nhy'r Cymry, 11 Heol Gordon am 8 p.m.

Llun, 2 Ebrill

Cymdeithas Gymraeg Rhiwbina: Tyfu i fyny yn Llundain! Sgwrs gan y Parch. Evan Morgan yng nghapel Bethany, Rhiwbina am 7.30 p.m.

Llun, 9 Ebrill

Merched y Wawr, Cangen Caerdydd: 'Lluniau o'r

Casgliad Cenedlaethol'. Sgwrs gan Eleri Wyn Evans yn festri Eglwys Minny Street, am 7.30 p.m.

Mawrth, 10 Ebrill

Cymdeithas Cymrodorion y Barri: Ymweliad gan Gymrodorion Caerdydd, yn festri Eglwys Annibynnol Gymraeg y Barri, Sgwâr y Brenin, am 7.15 p.m.

Gwener, 13 Ebrill

Cyngor Eglwys Cymraeg Caerdydd: Gwasanaeth Gwener y Groglith yn Eglwys Dewi Sant am 2.00 p.m.

Mercher, 18 Ebrill

Cymdeithas Tŷ'r Cymry: Cyfarfod Blynnyddol, yn Nhy'r Cymry, 11 Heol Gordon am 8 p.m.

Er mwyn cynnwys digwyddiadau yn y Calendr, anfonwch y manylion at:

Dr E. Wyn James, 16 Kelston Rd., Yr Eglwys Newydd, Caerdydd CF14 2AJ

(Ffôn: 2062 8754, E-bost:

JamesEW@caerdydd.ac.uk).

Mae'r Calendr hefyd ar safle we'r Dinesydd:

<http://www.dinesydd.uklinux.net/>

Cydymdeimlir

- â Mari Morgan a'i theulu yn Ninas Powys ar golli ei mam Myra yn Ysbyty Dewi Sant, Pontypridd ar 27 Ionawr. Bu'r angladd yn Amlogsgfa Glyntaf ar 2 Chwefror.

- â Mair Eames, Rhiwbina a Hywel Evans, Llanbrynmair ar golli eu mam Mary, gweddw John Idris Evans a fu'n gweithio yn Adran Ysgolion BBC Cymru. Bu farw yn Ysbyty Llandochau ar 5 Chwefror a bu'r angladd yn Amlogsgfa'r Ddraenen ar 12 Chwefror.

- â Beti Cooksley a'r teulu yn Coryton ar golli ei gŵr Clive Cooksley a fu farw yn Ysbyty'r Brifysgol ar 5 Chwefror. Bu'r angladd yn Eglwys y Crwys ac yn dilyn yn Amlogsgfa'r Ddraenen ar 12 Chwefror.

Marw bardd

Yn dawel yn ei gartre yn Rhiwbina ar 26 Ionawr bu farw'r bardd adnabyddus John Stuart Williams, gynt o Aberpennar. Roedd yn 80 oed. Bu'n athro Saesneg am flynyddoedd yn Ysgol Uwchradd yr Eglwys Newydd cyn mynd yn Bennaeth yr Adran Saesneg yng Ngholeg Cyncoed. Bu'r angladd yng Nghapel Beulah, Rhiwbina ar 6 Chwefror ac yn dilyn yn Amlogsgfa'r Ddraenen. Cydymdeimlir â'i weddw Shellagh a'r teulu oll yn eu colled.

Marw anhymig Griff Evans

Yn ystod mis Ionawr lladdwyd Griff Evans mewn damwain car ger ei gartre yn Henley-on-Thames, Swydd

Rhydychen pan lithrodd ei gar ar rew du ar y ffordd. Gedy ei bartner Sandy a'u mab bychan Cai. Dechreuodd ar ei yrfa yn y byd teledu gyda BBC Wales yn Llandaf a chyn ei farwolaeth roedd e'n rheolwr llawr y rhaglenni teledu "Who Wants to be a Millionaire" a "The Weakest Link". Brodor o Ddiserth, Sir y Fflint, oedd e ac yn frawd i Sioned Mair, y cyflwynwraig deledu ar S4C sy'n byw yn y Groeswen. Cydymdeimlir â hi a'r teulu oll yn eu profedigaeth lem.

Gosod plac er cof

Cynhaliwyd seremoni unigryw ar 25 Chwefror yn Wallasey, Lerpwl, i ddadorchuddio plac dwyieithog ar wal rhif 6, Wilton St., Liscard, Wallasey i ddynodi mai yno y magwyd J Saunders Lewis. Roedd merch Saunders Lewis, sef Mair Saunders Jones yn bresennol yn y seremoni. Cynhaliwyd oedfa o ddiolch am fywyd y llenor yng Nghapel Serpentine Rd yn dilyn y seremoni o flaen y tŷ.

Cyngerdd Arbennig

Cynhaliwyd cyngerdd ar 17 Chwefror yn Eglwys yr Holl Saint, Penarth, gan Gôr Sirol Bro Morgannwg pan berfformiwyd "offeren y Coroni" gan Mozart yn ogystal â rhoi'r perfformiad cyntaf o "Cantata Fechan" a gyfansoddwyd gan Geraint Michael, mab Alun Michael, cyn ysgrifennydd Cymru.

Llongyfarchiadau

- i Aled a Bethan Price, Llandaf ar enedigaeth eu mab Ifan ar 28 Ionawr. Brawd i Huw ac ŵyr arall i Gareth a Mari Price, Llandaf, ac Emyr Williams, Morfa Bychan, Porthmadog.

Penodi Swyddog Gweinyddol

Mae Menter Iaith Caerdydd wedi penodi Swyddog Gweinyddol newydd i gynorthwyo gyda gwaith y swyddfa.

Mae Norman Harries, brodor o Gaerdydd newydd ddychwelyd i'r ddinas wedi cyfnod o ddwy flynedd yn gweithio yn Sweden.

Enillodd Norman radd yn y Gymraeg ym Mhrifysgol Cymru, Llanbedr Pont Steffan a bu'n weithgar dros yr iaith ers blynnyddoedd.

Mae gan y fenter nifer o gynlluniau uchelgeisiol ar y gweill mewn nifer o wahanol feysydd ar draws y ddinas, a bydd Norman yn chwarae rôl allweddol wrth i'r Fenter ehangu a chynorthwyo amryw brosiectau cyffrous newydd.

Am fanylion pellach cysylltwch â Gareth Kiff, Swyddog Datblygu, neu Norman Harries, Swyddog Gweinyddol yn swyddfa'r Fenter.

Ffarwelio â theulu

Ar ddechrau mis Mawrth gadawodd David a Kris Phelps a'i mab bychan Mathew, Rhiwbina i fyw yn Nulyn. Bu Kris yn uwch-ddarlithydd y Gymraeg yn Adran Addysg Athrawon ym Mhrifysgol Cymru Casnewydd cyn eu hymadawiad. Dymunwn yn dda iddyn nhw fel teulu yn Nulyn.

CYDNABYDDIR CEFNOGAETH

BWRDD YR IAITH GYMRAEG

I'R CYHOEDDIAD HWN

Os oes angen gwybodaeth o unrhyw fath am yr iaith

Gymraeg, galwch y LLINELL GYSWILT...

0845 6076070

Llun - Gwener 10.00am - 12.30pm, 1.30 - 3.30pm
cyfradd galwadau lleol





Côr Plant Caerdydd

Mae 50 aelod yn y côr hwn rhwng 10 a 15 oed. Maent yn dod o wahanol ardaloedd yn ac o gwmpas y ddinas. Maent i gyd yn ddisgyblion yn yr ysgolion Cymraeg.

Mair Robins a Sandra Semmens sy'n eu hyfforddi. Mae eu repertoire yn eang ac amrywiol, yn cynnwys cerddoriaeth glasurol, cyfoes, traddodiadol a cherdd dant.

Sefydlwyd y côr ym 1995. Uchafbwyntiau nodedig oedd perfformio gyda chôr FORUM 20 o Siapan a theithio i'r Almaen i ganu mewn tri chyngerdd yn nyffryn y Rhein. Maent wedi canu, ar gyfartaledd, mewn tri chyngerdd y tymor mewn capeli ac eglwysi yn y ddinas ers i'r côr gael ei sefydlu. Cawsant gyfle i berfformio yn yr Eglwys Gadeiriol yn Llandaf adeg y Nadolig y llynedd.

Bwriad y côr yw rhoi mwynhâd a phleser i gynulleidfaoedd gan ennyn brwdfrydedd am bob math o gerddoriaeth yng nghalonau'r plant a rhoi cyfle iddynt hwythau hefyd gael llawer o hwyl.

Mae gan y côr C.D. sydd ar werth yn y siopau ar label Sain. Mae'r côr yn cwrdd i ymarfer bob nos Fawrth rhwng 7.00pm a 8.15pm yn Ysgol Gyfun Glantaf, Ystum Taf.

Os oes cerddor ifanc yn eich cartref sy'n meddu ar lais canu da ac sy'n dangos diddordeb i ymuno â Chôr Plant Caerdydd, cysylltwch â Mair Robins 029 20611994 am ragor o wybodaeth. Mae lle ar hyn o bryd i nifer o aelodau newydd.

Ymwelydd â Chymru

Yn ddiweddar bu'r archaeolegydd Yr Athro Rhys Jones ar ymweliad â Chymru o Awstralia lle mae e'n darlithio ym Mhrifysgol Genedlaethol Awstralia gan arbenigo ym mywyd a diwylliant yr Aborigines. Tra yng Nghymru cafodd ei benodi yn ddarlithydd ymweld anrhydeddus yng Nghanolfan Scarab Coleg y Brifysgol Casnewydd sy'n ymchwilio i ddiwylliant archaeoleg, crefyddau a daearyddiaeth-bio. Yn ystod ei lencyndod bu ei deulu yn byw yn Rhadur a bu'n ddisgybl yn Ysgol Ramadeg yr Eglwys Newydd yng nghwmni ei gyfyrdar Rhodri Morgan, Prif Weinidog y Cynulliad a'i frawd Prys. Bu'n astudio wedyn ym Mhrifysgol Caergrawnt a bu'n Athro yn Harvard rhwng 1995/96. Mae e'n byw yn Awstralia bellach ers bron i ddeugain mlynedd. Mae ei chwaer Non Evans yn byw ger Llancarfan yn y Fro a bu eu diweddar fam Enid Watkin Jones yn athrawes Ffrangeg yn Ysgol Hywel Llandaf am bum mlynedd ar hugain ac am nifer o flynyddoedd hi oedd yn gyfrifol am roi'r wobwr yng Nghystadleuaeth Dysgwr y Flwyddyn yn yr Eisteddfod Genedlaethol. Bu'r teulu yn aelodau yn y Tabernacl, yr Ais.

Cyfes iasoer ar S4C

Yn 1995 ymddangosodd y gyfres A55 gyntaf ar S4C gan yr awdur Geraint Jones, gynt o Gaernarfon ond sy bellach yn byw yn ardal Treganna hefo'i wraig Bethan a'u plant. Bu'r gyfres yn un boblogaidd a rwan mae cyfres arall o eiddo Geraint Jones ar S4C sef "Arachnid", cyfres iasoer wedi ei lleoli yn Sir Benfro. Cwmni Teledu Elidir sy wedi bod yn gyfrifol am y gyfres gyda Paul Turner yn gyfarwyddwr. Bu Paul Turner yn gyfarwyddwr y ffilm "Hedd Wyn" hefyd. Y prif actorion yn "Arachnid" ydy Grug Maria, Dewi Rhys Williams a Gwion Huw.

Seren Bop newydd

Un o'r pum enillydd yn y rhaglen "Pop Stars" ar ITV ydy Noel Sullivan, 20 oed o'r Caerau yng Nghaerdydd. Bydd y pump yn ffurfio band canu pop nawr a gobeithir rhyddhau eu halbwm gyntaf ar ddiwedd mis Mawrth. Mae Noel yn gyn ddisgybl o ysgol Uwchradd Mary Immaculate yn y ddinas. Bu'n aelod o Gôr Meibion y Mynydd Du ar daith yn yr Amerig a bu'n canu yn y clybiau a'r tafarndai yn Ibiza. Lwc dda i Noel Sullivan.

Gwestai Beti George

Gwestai'r rhaglen "Beti a'i phobl" ar 1 Chwefror ar Radio Cymru oedd Wayne Howard a gafodd ei eni yn y Bae ond sy bellach yn byw yn Llanrhymni. Dysgodd Gymraeg yn y Ganolfan Iaith yn Heol y Parc ac yn nosbarthiadau Cymdeithas yr Iaith yn Nhy'r Cymry, Heol Gordon ac erbyn hyn mae e'n ystyried ei hun yn Gymro Cymraeg. Daw ei wraig, Linda, o Splott ac mae eu plant, sef Elinor a Connagh yn ddisgyblion yn Ysgol Bro Eirwg. Llongyfarchiadau iddo ef ar ei lwyddiant yn meistrlo'r iaith.

"Newid Cyfeiriad"

Ar ôl chwe blynedd o gyflwyno'r rhaglen boblogaidd "Sgorio" ar S4C bydd y ferch Amanda Protheroe Thomas o Rydaman gynt, ond bellach sy'n byw yng Nghaerdydd yn ymadael â'r rhaglen i fod yn gynhyrchydd rhaglenni teithio byd eang hefo cwmni yn Stroud, Swydd Gaerloyw. Dechreuodd ei gyrfa ar y teledu fel hyfforddwraig ffitrwydd ar y rhaglen "Heno" cyn ymgymryd â chyflwyno rhaglenni "Pacio" ar S4C ac "Away Days" ar HTV. Lwc dda iddi hi wrth "newid cyfeiriad".

Gwraig yn Athro'r Gymraeg ym Mangor

Penodwyd Dr Branwen Jarvis i Gadair yr Iaith Gymraeg a'i Llenyddiaeth yng Ngholeg y Brifysgol, Bangor yn olynydd i'r Athro Gwyn Thomas. Bu ei theulu yn byw yng Nghaerdydd a bu ei mam y diweddar Gwyneth Morgan yn athrawes Gymraeg yn Ysgol Uwchradd Cathays am gyfnod. Ei thad Trevor Morgan oedd y gŵr busnes o Aberdâr a sefydlodd Cwmni Undeb a Chronfa Glyndŵr a fu'n gymaint o gefn i hybu addysg Gymraeg yn y dyddiau cynnar. Llongyfarchiadau i'r Athro newydd.

Marw newyddiadurwr ifanc

Ar ôl brwydro yn erbyn clefyd y gwaed (leukaemia) yn Ysbyty y Royal Marsden yn Surrey am bedwar mis, bu farw Rhodri Jones, 24 oed, newyddiadurwr dan hyfforddiant papur newydd "Y Western Mail" ar 26 Chwefror. Mynychodd Ysgol Gyfun Penweddig Aberystwyth cyn astudio'r gyfraith ym Mhrifysgol Abertawe gan ymuno â'r *Western Mail* yn 1999. Bu'r angladd yng Nghapel Salem, Treganna, ar 2 Chwefror ac yn dilyn yn Amlogfa'r Ddraenen. Cydymdeimlir â'i rieni, Geoffa Meirwen Jones a'i frawd iau Rhydian a'i gariad Mari Jones-Williams yn eu profedigaeth.

Swydd Newydd

Llongyfarchiadau i Sue Peters, Bae Caerdydd ond gynt o'r Porth yn y Rhondda ar ei phenodiad fel Uwch ddarlithwraig y Gymraeg yn yr Adran Addysg Athrawon ar Gampws Caerllion, Prifysgol Cymru Casnewydd. Bu am ddeng mlynedd yn ddarlithydd y Gymraeg yn yr Adran Addysg Athrawon Coleg Cyncoed a dechreuodd ar ei dyletswyddau newydd ar ddechrau mis Mawrth.

Ymgyrch Cymru a'r Byd

Drwy gydol 1999 a rhan o 2000 bu'r Undeb yn ceisio cael Awdurdodau'r Cyfrifiad i gynnwys cwestiwn yn Lloegr a rhannau eraill o'r Deyrnas Gyfunol er mwyn darganfod y nifer o siaradwyr Cymraeg y tu allan i Gymru. Gwrthodwyd y cais ond yng Nghyfrifiad Ebrill 2001 am y tro cyntaf erioed gall y Cymry sy'n byw tu allan i Gymru nodi eu cenedligrwydd drwy ysgrifennu "Welsh" o dan "others" yn y blwch "Ethnic" priodol ar y ffurflen. Felly os oes gan ddarlennwyr Y Dinesydd berthnasau neu ffrindiau yn byw dros y ffin ewch ati i'w hysbysebu ynglŷn â'r hawl hon.

Sgorio dros Gymru

Cafwyd gêm hynod o gyffrous yn Wrecsam, noswyl y Gêm rygbi fawr rhwng Cymru a Lloegr yn ein Stadiwm Genedlaethol pan chwaraeodd Tîm A Cymru yn erbyn Tîm A Lloegr. Capten Tîm A Cymru oedd Huw Harries sy hefyd yn gapten Tîm Rygbi Pen y Bont ar Ogwr a sgoriodd e gais gwych yn ystod y gêm. Cyfartal oedd y gêm 19-19 ar ôl i Lee Jarvis droi cic cosb ym munud olaf y gêm. Daw Huw Harries o'r Eglwys Newydd ac mae e'n fab i'r meddyg teulu Justin Harries a'i wraig Margaret ac yn gyn ddisgybl o Ysgol Glantaf.

Pen-blwydd Hapus Tŷ Hafan

Codwyd hospis plant Tŷ Hafan yn y Sili yn y Fro wedi ymgyrch i godi dros ddwy filiwn o bunnoedd. Eleni, mae'r hospis yn dathlu ei ail ben-blwydd ac yn ystod y cyfnod ers agor yr hospis mae 140 o blant sy ag anhwylderau marwol wedi treulio amser yno yn derbyn gofal tyner a chydymdeimladol y Staff ymroddgar. Yn ddiweddar, cyhoeddwyd fod y Tywysog Siarl wedi cytuno i fod yn Noddwr i'r hospis.

Apêl Cymdeithas y Dywysoges Gwenllïan

Erbyn yr haf gobeithir bydd cofeb ar ffurf carreg fawr o Gloddfa Penmaenmawr wedi ei dadorchuddio yn Sempringham i gofio am y Dywysoges Gwenllïan, sef unig ferch Llywelyn ein Llyw Olaf a'i wraig Eleanor de Montfort. Bu farw ei mam ar ei genedigaeth a phan oedd hi'n chwe mis oed lladdwyd ei thad yng Nghilmeri yn 1282. Fe'i cymerwyd i leiandy yn Sempringham yn Swydd Lincoln a bu yno hyd ei marwolaeth yn 54 oed. Sefydlwyd Cymdeithas y Dywysoges Gwenllïan yn 1996 er mwyn cadw'r cof amdani yn fyw. Bydd angen £5,000 i godi'r gofeb iddi a felly gwahoddir darllenwyr Y Dinesydd i gyfrannu tuag at y gost. Anfonwch eich rhoddion at Maltt Anderson, Ysgrifennydd y Gymdeithas yn 158 Lake Rd East, Parc y Rhath, Caerdydd CF23 5NQ.

Theatr Solo yn Theatr y Crwys

Nos Lun, 29 Ionawr, gwelwyd theatr y Crwys yn llawn i weld

cyflwyniad yn portreadu hanes Goronwy Owen y bardd o Fôn gan Theatr Solo. Cymerwyd rhan Goronwy Owen gan Llïon Williams a rhan y cyflwynydd gan ei frawd y bardd Iwan Llwyd. Cafwyd actio grymus gan Llïon Williams a hoeliwyd sylw'r gynulleidfa o'r dechrau hyd y diwedd.

Dathlu lawnsio archif

Dathlwyd lawnsio Archif UCAC ar 14 Chwefror yn Neuadd Sefydliad y Gweithwyr Oakdale yn yr Amgueddfa Werin yn Sain Ffagan. Y gwesteion arbennig oedd yr Athro Sioned Davies, Adran y Gymraeg, Prifysgol Cymru Caerdydd, Peter Keelan, Llyfrgell Prifysgol Cymru Caerdydd ac Iorwerth Morgan, Ymgynghorydd Addysg UCAC. Cafwyd datganiadau gan ddisgyblion Ysgol Dewi Sant, Llanelli ac Ysgol Gyfun Plasmawr, Y Tyllgoed yn ystod y cyfarfod.

Dyddiadau pwysig yn Rhiwbina

Cynhelir Cymanfa Ganu gan ysgolion cynradd Gogledd Caerdydd yng Nghapel Beulah, Rhiwbina ar nos Wener, 30 Mawrth am 7 o'r gloch dan arweiniad Alun Guy a Dr Alun Jones wrth yr organ. Bydd elw'r noson yn mynd tuag at gronfa Eisteddfod yr Urdd 2001.

Cynhelir Cyngerdd gan Gôr Caerdydd dan arweiniad Gwawr Owen a disgyblion Ysgol y Wern yn Neuadd Goffa Rhiwbina ar nos Sadwrn, 31 Mawrth am 7.30 pm a gellir prynu tocynnau drwy gysylltu â Wyn Mears (2075 8726). Elw - cronfa Eisteddfod 2001.

Cynhelir Bore Coffi'r Pasg yn festri Capel Bethel, Maes y Deri ar fore Sadwrn, 7 Ebrill rhwng 10.30-12.15. Croeso cynnes i bawb. Dewch yn llw! Elw cronfa Eisteddfod 2001.

Rhybudd gan Drefnydd Eisteddfod

Genedlaethol Dinbych

Ebrill 1 ydy'r diwrnod olaf i dderbyn Cynnyrch Gwaith Cartref i'r Eisteddfod yn Dinbych, a Mai 1, ydy'r diwrnod cau am dderbyn enwau ar gyfer Cystadlaethau Llwyfan yn yr Eisteddfod. Felly hastiwch! Am ragor o fanylion cysylltwch â'r trefnydd, Hywel Wyn Edwards, Swyddfa'r Eisteddfod, 15 Llain Portland, Dinbych, Sir Dinbych LL16 3LF. Ffôn: 01745 818900.

RAFFL FAWR URDD 2001

Er mwyn cynorthwyo'r apêl ariannol ar gyfer Eisteddfod Genedlaethol Urdd Gobaith Cymru Caerdydd a'r Fro 2001, cynhelir RAFFL FAWR 2001.

Dim ond £1.00 am gyfle i ennill car newydd sbon!

Os am brynu tocynnau raffl neu os hoffech ychydig lyfrau i'w gwerthu ar ran yr apêl leol, cysylltwch ag Elinor Patchell 029 20627 733 neu am fanylion pellach, cysylltwch â Swyddfa'r Urdd 01554 880 893.

CALENDR O DDIGWYDDIADAU HYRWYDDO EISTEDDFOD GENEDLAETHOL URDD GOBAITH CYMRU CAERDYDD A'R FRO 2001

DYDDIAD

GWEITHGAREDD

- ❖ Gwener 9 Mawrth Sioe Ffasiwn
- ❖ Gwener 9 Mawrth Cyngerdd Gwyl Dewi
- ❖ Sadwrn 10 Mawrth Dawns Pwyllgor Apêl Gogledd Caerdydd
- ❖ Mawrth 13 Mawrth Talwrn y Beirdd, Recordiad y BBC

- ❖ Gwener 23 Mawrth Dawns Wanwyn, Pwyllgor Apêl Y Bontfaen
- ❖ Gwener 23 Mawrth neu 30 Mawrth Cyngerdd
- ❖ Sadwrn 24 Mawrth Noson gyda Owen Money a Karen Ellis

- ❖ Gwener 30 Mawrth Cinio a Dawns Max Boyce
- ❖ Gwener 2 Mawrth Twmpath Dawns gyda blas Gwyddelig
- ❖ Mawrth / Ebrill Diwrnod Golff - Clwb Golff Creigiau
- ❖ Sul 1 Ebrill Cymanfa Ganu
- ❖ Mercher 25 Ebrill Diwrnod Golff, Clwb Golff Creigiau
- ❖ Ebrill / Mai? Gweithgaredd Nodedig (Râs Hwyl)
- ❖ Gwener 11 Mai Mordaith o gwmpas Bae Caerdydd

LLEOLIAD ac AMSER

P Apêl Creigiau, Pentyrch, Gwaelod y Garth, Tocynnau 02920 890 101
Neuadd y Dref, Y Bontfaen
Castell Caerffili
Pwyllgor Llenyddiaeth, Eglwys Norwyaidd,
Tocynnau Efa Gruffudd 02920 307623
Neuadd Goffa'r Barri, Tocynnau £30, 01446 775 375

P Apêl Treganna, Gwesty'r Posthouse, Tocynnau £25
(cynnwys pryd 3 chws) 02920 803350
P Apêl Yr Eglwys Newydd Tocynnau £40 Mary Buttle 02920 692 999
Clwb Trydan, Pwyllgor Dawnsio Gwerin
P Apêl Creigiau, Pentyrch, Gwaelod y Garth
P Apêl Creigiau, Pentyrch, Gwaelod y Garth
P Apêl Creigiau, Pentyrch, Gwaelod y Garth
P Apêl Penarth

Newyddion o'r Eglwysi... dan ofal Gwilym Dafydd

Eglwys y Crwys

Daeth y Nadolig, ac fe aeth, llusgodd yr Ŵyl o un diwrnod i'r llall ond o dipyn i beth rhois mis Ionawr ei batrwm arferol ar weithgareddau'r Eglwys. Daeth cyfarfodydd y Gaeaf i drefn gyda Mrs Mallt Anderson yn annerch Cylch y Chwiorydd a'r Froderfa ar y cyd. 'Te a Kit Kat' oedd ei thestun. Cyfres o ddarlenniadau sy'n rhoi pleser i Mallt wrth iddi fwynhau 'paned a siocled ganol y bore. Prynhawn Mercher, 24 Ionawr, Miss Ann Rosser a Mrs Delyth Shapey a fu'n diddanu yr aelodau yn y ddau gylch.

Ddechrau Ionawr Mr Anthony Evans a fu'n rhoi annerchiad i'r Grŵp Merched. Cafwyd noson fywiog yn ei gwmni yn amlinellu ei yrfa fel athro celf ac yn ddiweddarach fel arlunydd llawn amser. Fis yn ddiweddarach Mr Ken Brassil o'r Amgueddfa Genedlaethol a fu'n siarad gyda'r un gymdeithas. Cafwyd noson ddifysr yn gwrandao ar ddadansoddiad o genedl y Cymru - Pwy ydyn ni?

Wythnos yn ddiweddarach, tro Cwmni'r Gadwyn oedd defnyddio'r theatr i gyflwyno eu pigion nhw o oreuon y cystadlaethau llenyddol o'r Brifwyl yn Llanelli.

Newyddion o'r Tabernacl - Chwefror 2001

Yn ddiweddar dathlodd dau gwpl o blith yr aelodau eu Priodas Aur - George a Pat Edwards, a Ron a Gwyneth Thomas. Ar yr un pryd fe ddechreuodd rhai o'r aelodau ar eu bywyd priodasol newydd - Huw Roberts a Gwawr Owen, Huw Eurig Davies ac Emma Walford, a Sandra Roberts a'i dyweddi.

Penodwyd Hefin Griffiths yn Brifathro ar Ysgol Gymraeg y Bronllwyn yn y Rhondda - dechreuodd ar ei waith newydd fis Ionawr.

Ar ôl cyfnod hir fel aelodau'r Tabernacl, ffarweliwyd â Lyn a Christine Davies wrth iddyn nhw symud i Lanelli ac ymaelodi yng nghapel Bethania yno.

Hyfryd oedd clywed am enedigaeth Rhodri i Abigail Loring a'i chymar Huw, ac Isaac i Siwan a Tim Richards, ŵyr arall i Non a Gwenda Rees. Ganwyd hefyd ŵyr arall, Luca Morgan, i Judith Tagliatala yn yr Eidal, a gorwyres i Gwynne a Gwenda Williams.

Ydy, mae'r Tabernacl ar y we, a'r cyfeiriad yw - www.aureus.co.uk/tabernacl/home.html Os ydych am wybodaeth fwy diweddar am ein gweithgareddau, cewch ddarllen ein cyhoeddiadau Y Cronicle a'r Ddolen yno.

Daeth nifer dda o'r Tabernacl i rannu yn Swper Cyngor Eglwys Canol Caerdydd yn Ystafell Fwyta Spiro, Sant Pedr yn y Rhath - cyfle i wrando ar y Parchg Jeff Williams ac i gwrrd ag aelodau o eglwysi eraill y ddinas.

Uchafbwynt yn hanes diweddar yr eglwys oedd bedyddio dwy ferch ifanc - Bethan, merch Mr a Mrs Bryn Evans, a Rhian, gwraig Marc Jon Williams. Yn ogystal derbyniwyd Eva Wolffe yn aelod o'r eglwys a hithau'n trosglwyddo'i haelodaeth o'r Eglwys Lutheraidd yn Aschaffenburg ym Mafaria.

Fel un rhan o gymynrodd sylweddol ewyllys Luned Tudno i'r Tabernacl, gosodwyd llun o'r capel ar wal y festri. Gwaith Aled Samuel yw'r llun ac fe'i wnaed yn arbennig ganddo i Luned a Gwynn. Dowch i weld y llun adeg y bore coffi ar y Sadwrn.

Mae côr y Tabernacl wedi dechrau ar y gwaith o ddysgu'r "Crucifixion" gan John Stainer. Euros Rhys sy'n arwain, a Huw Thomas sydd wrth yr organ. Bydd y perfformiad ar Nos Fercher, Mawrth 21. Mae gwahoddiad cynnes i aelodau o eglwysi eraill y

ddinas i rannu'r profiad o ganu yn y côr - mae'r ymarferion ar bnawn Sul. Pris y tocynnau yw £4 (£2 i blant).

Minny Street, Caerdydd

Ddechrau Chwefror bu farw un o'n haelodau hynaf - **Mrs Mary Evans** (Llandaf). Cydymdeimlwn yn ddiffuant iawn â'r teulu.

Ar Chwefror 18 cawsom y ffrainc o dystio i fedydd **Rebeca Mair** - merch fach Meryl a Gethin Ellis a chwaer Owain. Braf oedd cael croesawu chwaer Meryl, Rhian (Goodfellow), yn ôl atom i Minny Street - bu Rhian a'i phriod, Neil, ynghyd â'u merch fach Nia, allan yn Awstralia am flwyddyn.

Rym hefyd wedi cael cwmni Hawys (Thomas) yn ein hoedfaon a hithau ynghyd â'i phriod, Phillip a'u merch fach Catrin wedi treulio blwyddyn yn Canada.

Pob dymuniadau da i holl deuluoedd yr eglwys.

Hefyd ar Chwefror 18 cawsom gyfle i groesawu'r **Parchg Cath Williams** atom i oedfa'r bore a hithau'n rhoi ychydig o hanes a datblygiadau diweddar yng Nghaplaniaeth Caerdydd. Hyfrydwch oedd cael ei chwmni hi a dau o'r myfyrwyr, Huw ac Arwel, yn yr oedfa.

Llawenydd oedd cael gweld a chlywed ein Gweinidog, y **Parchg Eifion Powell**, yn y gwasanaeth yn Aberystwyth i gyflwyno'r llyfr emynau newydd, Caneuon Ffydd. Edrychwn ymlaen yn eiddgar at gael derbyn ein harcheb o'r gyfrol swmpus hon!

Ebeneser

Llawenydd mawr inni oedd cael tystio i fedydd Sara Mai, merch Elin a Lyn Jones a chwaer fach Ifan, ar Chwefror 4. Estynnwn ein dymuniadau gorau i'r teulu oll.

Eglwys Dewi Sant

Bu amrywiaeth o weithgareddau ers y Nadolig. Cyfarfu Clwb Cerdded Cledan ym Mharc Cosmeston ar Sadwrn ola'r flwyddyn. Roedd hi'n ddiwrnod braf ond yn oer iawn a'r eira'n drwch ar frigau'r coed wrth i ni ddilyn y llwybrau. cawsom dywydd teg unwaith eto ddiwedd mis Ionawr wrth i ni ddilyn llwybr y Taf.

Cynhaliwyd Noson Goffi gan aelodau Cylch Dewi a'r elw yn mynd at waith y Cylch, sef paratoi ar gyfer Gwyl Flodau yn yr eglwys yn 2002. Noson dra gwahanol oedd y Noson Gyri yn un o dai bwyta Indiaidd Treganna ym mis Chwefror.

Bob yn ail brynhawn Sadwrn cynhelir gwasanaethau'r 'Paradise Run' yn Neuadd yr Eglwys. Grŵp o wirfoddolwyr sy'n paratoi bywyd ar gyfer y digartref a'r anghenus yw gweithwyr y 'Paradise Run', ac mae darparu canolfan i'r gwaith ardderchog yma yn elfen bwysig yn ein cenhadaeth mewn dinas fel Caerdydd.

Mae rheswm arbennig iawn gennym dros ddathlu dydd ein nawddsant Dewi yn yr eglwys hon eleni. Comisiynwyd Geraint Lewis, un o gerddorion amlycaf Cymru, i gyfansoddi trefniant o'r Cymun Bendigaidd ar gân ar gyfer Eglwys Dewi Sant. Cenir y gwaith comisiwn newydd yn ystod gwasanaeth hwyrol noson Gwyl Dewi. Bydd Esgob Llandaf, yr Esgob Barry, yn pregethu yn y gwasanaeth.

Llongyfarchiadau i Cyril a Margret Hughes gan eu bod yn Dadcu a Mamgu am y tro cyntaf. Ganwyd merch fach, Ela Gwenllian, i'w mab Siôn a Catrin. Trueni eu bod nhw'n byw mor bell i ffwrdd yng Ngwynedd!

Glantaf

Blwyddyn 9 yn Llangrannog

Bythefnos yn ôl fe aeth Blwyddyn 9 i Llangrannog ar gwrs iaith. Fe fwyneuo i gyd yn fawr! Does dim byd wedi newid ers y tro diwethaf y buom yno ym Mlwyddyn 7, heblaw am y ffaith bod un gweithgaredd newydd, cyfeiriannu. Roedd yn dda, ond ddim cystal â'r hen weithgareddau. Fe fwyneuo i'r sgîo a'r gwibgartio fwyaf. Fe fwyneuo i yn fawr weld yr athrawon yn gwneud ffyliaid o'u hunain ar y sgîs! Y prynhawn cyrhaeddodd ni fe aethom ni am dro i lawr i'r pentref a'r traeth. Fel arfer, roedd yn glawio ond ni wnaeth unrhywun adael i'r glaw ei ddigalonni.

Dwi'n meddwl bod y cyfle o fynd i Llangrannog a'r ffaith bod yn rhaid i ni siarad Cymraeg drwy'r amser, wedi ein helpu efo'r iaith. Roedd pawb yn siarad Cymraeg bron drwy'r amser ac roedd iaith pawb wedi gwella drwy gydol yr wythnos! Fe roddodd Llangrannog y cyfle i ni ddod i 'nabod y swogs, rhai nad oedden erioed wedi eu gweld o'r blaen.

Gyda'r nos roedd gweithgareddau megis Cwis, Twmpath, Disgo, Noson Lawen a Noson Swogs. I mi, y noson olaf, sef y Noson Lawen a'r Noson Swogs oedd y gorau! Roedd amrywiaeth o gystadlaethau ac roedd yn rhaid i bawb gymryd rhan, PAWB, gan gynnwys yr athrawon! Wedi'r noson yna ni fyddwn i'n cael sioc pe bai'r athrawon yn difaru dod. Nid yw cael jeli na hufen yn eich wyneb yn brofiad neis iawn!

Dwi'n gobeithio y byddaf yn medru ymweld â Llangrannog unwaith eto fel swog pan fyddaf yn y chweched er mwyn ail-fyw yr hwyl i gyd unwaith eto!

Nia Young - Blwyddyn 9.

Diwrnod Diddorol

Yn ystod ail wythnos mis Chwefror, cawsom ni fel disgyblion Blwyddyn 9, gyfle cyffrous i gael blas ar sgiliau a fydd yn ddefnyddiol yn y gweithle, yn ystod Diwrnod Sgiliau Diwydiannol a gynhaliwyd yn yr ysgol. Fe ddaeth cynrychiolwyr o sawl cwmni lleol i'r neuadd i'n tywys ni drwy ddiwrnod o weithgareddau diddan a diddorol.

Ar ôl ymgasglu a chael cyflwyniad byr i weithgareddau'r dydd, cawsom ein briff am y diwrnod - adeiladu tegau o'r defnyddiau a roddwyd i ni, cynllunio poster marchnata a rhoi cyflwyniad i weddill y flwyddyn yn esbonio manteision ein tegau ni. Roedd yna ugain grwp i gyd, ac roedd yna gyffro mawr wrth i bob grwp fynd ati i greu eu tegau unigryw. Gwelwyd pob math o syniadau rhyfedd a gwreiddiol, ac erbyn amser cinio, roedd pawb yn edrych ymlaen yn eiddgar at gyflwyniadau'r prynhawn.

Wedi i bawb orffen greu eu tegau, roedd yn rhaid mynd ati i ddewis pris ar gyfer y cynnyrch, gan ystyried pris y deunyddiau a ddefnyddiodd i greu'r tegau (a faint o elw yr oeddem eisiau!). Ar ôl ei brisio, aeth pawb ati i greu poster i ddenu cwsmeriaid i brynu'r tegau, ac i sgriptio'r cyflwyniadau. Hedfanodd yr amser, a chyn pen dim, roedd hi'n amser ar gyfer cyflwyno'r tegauau gorffenedig.

Cawsom sawl cyflwyniad lliwgar a doniol, a



Rhai o ddisgyblion Bl. 9 yn mwynhau yn Llangrannog

gwelwyd sawl tegau â photensial enfawr! Peidiwch â synnu os, ymhen rhai blynyddoedd, y gwelwch rai o blith disgyblion Glantaf yn enwog fel cynllunwyr tegau! O'r diwedd, daeth y cyflwyniad olaf i ben, ac wedi i Mrs. Carys Burston, y Tiwtor Blwyddyn gyhoeddi'r buddugwyr a'u cyflwyno â'u gwobrau, daeth yr amser i ni gyd ymadael â'r neuadd ar ôl diwrnod o brofiadau buddiol a gwerthfawr.

Owain Williams - Blwyddyn 9.

Beicio i Bontypridd

Yn ddiweddar cyflwynwyd sic o dros £900 i'r elusen 'Childline'. Casglwyd yr arian gan tua 50 o ddisgyblion blynyddoedd 8, 9, 10 ac 11 ar ôl iddynt gymryd rhan mewn taith seiclo noddedig o Ysgol Glantaf i Bontypridd.



Cystadleuaeth Iolo Morgannwg

Llongyfarchiadau i ddisgyblion Glantaf ar eu llwyddiant yng nghystadleuaeth ysgrifennu barddoniaeth Iolo Morgannwg. 'Y Ffair' oedd testun Blwyddyn 7 a daeth Branwen Hefin yn gydradd ail a Marged Jones yn gydradd drydydd. Ysgrifennu cerdd yn dwyn y teitl 'Anrheg' oedd tasg blynyddoedd 8 a 9 a daeth Rhys ab Owen ag Elin Roberts yn gydradd ail a Steffan Jones yn gydradd drydydd. 'Cyffro' oedd y teitl a osodwyd i flynyddoedd 10 ac 11 a daeth Lauren Barrow yn gydradd drydydd.

Daeth sawl disgybl arall yn agos i'r brig. Llongyfarchiadau iddynt i gyd.



Plasmawr

Y STOREY ARMS

Aeth criw o flwyddyn 8 a 9 i Storey Arms i gyflawni gweithgareddau awyr agored. Mae'r Storey Arms yn lle i ddysgu yn ogystal â chael hwyl a mwynhad. Mae llawer o weithgareddau i'w gwneud yno, er enghraifft cyfeiriadu, ble rydych yn defnyddio map i ddarganfod polyn gyda chod arno. Cawsom gyfle i gerdded afon; roedd hi'n daith tair milltir ac ar y ffordd roeddem yn llithro ar y tir, yn abseilio i lawr y twll du a dringo wal uchel gan dynnu ein gilydd i fyny gyda rhaff. Aethom hefyd i'r 'Beauty Parlour' lle roedd y tir yn fwdlyd iawn. Profiadau da arall oedd canwio a mynd trwy ogofâu. Roedd nifer o weithgareddau wedi'u trefnu ar gyfer y nos hefyd. Cawsom gyfle i fynd ar daith rhaff ond nid oeddem yn gweld dim yn y tywyllwch! Treuliasom wythnos yn Storey Arms yn mwynhau ac yn cael y cyfle i ddysgu pethau newydd. Roedd y profiadau a gawsom yn arbennig ac yn sicr buasem yn hoffi dychwelyd yno.

Steffan Lloyd a Wil Jeffs

TRIP I DISNEYLAND PARIS

Aeth criw ohonom o flwyddyn 10 ar drip ffiseg i Disneyland ym Mharis. Bwriad y daith oedd dysgu am egni potensial, egni cinetig a'r grymoedd ar y reid 'Space Mountain'. Ar ôl teithio mewn bws trwy Dwnel y Sianel roeddem yn aros yng ngwesty Cheyenne am dair noson.

Cawsom ddiwrnod cyfan yn Disneyland. Aethom i dair seminar a oedd yn rhoi gwybodaeth i ni am ochr wyddonol y reidiau yn y parc. Daethom i wybod bod y parc yn storio dwr yn ofalus ar y cwrs golff a'u bod yn ailgylchu llawer. Yn y seminarau, manteisiodd Disneyland ar y cyfle i hysbysebu gweithio yn y parc. Yn dilyn y seminarau cawsom gyfle i fwynhau a dyma oedd uchafbwynt y daith. Rydym yn dal i



chwerthin wrth feddwl am rai o anturiaethau aelodau o'r criw ar y reidiau! Roedd pawb wedi mwynhau'n fawr (y disgyblion a'r staff) ac wedi dysgu llawer!

Criw Gwyddoniaeth Blwyddyn 10

YMWELIAD GRAHAM HENRY

Ar fore dydd Gwener 26 Ionawr, ymwelodd Graham Henry â'r ysgol er mwyn cyflwyno sieciau i ddwy elusen er cof am Christian Thomas. Roedd rhieni Christian yn bresennol, ynghyd â chynrychiolwyr o'r ddwy elusen. Cyflwynodd Graham Henry siec o £2500 i Glenda Meakin o'r 'British Heart Foundation' a siec o £2500 i Maureen Ward o 'Cardiac Risk in the Young'. Ar ddechrau'r gwasanaeth cafodd y ddwy gyfle i siarad am eu helusennau a chafwyd gwybodaeth bwysig amdanynt. Ar ôl cyflwyno'r sieciau siaradodd Graham Henry, gan ganmol yr ysgol am yr ymdrech i godi arian a chofio Christian. Cafodd nifer o'r disgyblion gyfle i ofyn cwestiynau iddo a chafwyd atebion hynod o ddiddorol a manwl. Ar ddiwedd y gwasanaeth cafodd timau chwaraeon yr ysgol gyfle i gael tynnu eu lluniau gyda Graham Henry.

CYNGERDD CHRISTIAN

Ar nos Iau Chwefror 1af cynhaliwyd Cyngerdd Christian yn Eglwys Gadeiriol Llandaf. Cyflwynwyd y noson oedd Arfon Haines Davies a Nicola Heywood Thomas. Cymerodd nifer o unigolion a chorau ran yn y gwasanaeth; Katie Thomas chwaer Christian, Joanne Thomas, Caryl Thomas yn canu'r delyn, Côr Ysgol Creigiau, Côr Meibion Aber Valley a Chôr Ysgol Plasmawr. Roedd yr eglwys yn llawn a chafwyd gwledd. Mae'r arian a godwyd yn mynd tuag at wneud ymchwil bellach i broblemau'r galon yn yr ifanc.

CERDDORIAETH

LLONGYFARCHIADAU

- i Stephanie Dyer am fod yn aelod o 'Cerddorfa Genedlaethol Plant Prydain'
- i Rhidian Marc sydd wedi cael ei ddewis i ganu prif ran yn yr opera Magic Flute gyda'r WNO.



Estyniad i Ysgol Iolo

Bu prysurdeb mawr yn Ysgol Iolo Morganwg dros y misoedd diwethaf. Trwy weledigaeth ac ymroddiad ar ran llywodraethwyr, rhieni a staff yr ysgol, llwyddwyd i drawsnewid hen dŷ'r gofalwr, gan greu swyddfeydd, llyfrgell ac ardaloedd dysgu pwrpasol yno. Roedd hyn yn ei dro yn rhyddhau gofod ym mhrif adeilad yr ysgol ar gyfer ystafell ddosbarth newydd ac ehangu'r neuadd.

Arianwyd y fenter ar y cyd rhwng yr ysgol a'r Gymdeithas Rhieni ac Athrawon - gydag oriau di-ri o lafur cariad gan unigolion i addurno a pharatoi'r cwbl.

Braf oedd gallu croesawu Ieuan Evans, a'r Cynghorydd Jeff James, Arweinydd Cyngor Bro Morgannwg i ddod i ddathlu'r agoriad swyddogol. Fe'i gwelir yn y llun gyda'r pennaeth, Alan Jones, plant yr ysgol, aelodau'r staff, llywodraethwyr a swyddogion yr Awdurdod Addysg.

Wrth agor y datblygiadau'n swyddogol, cyfeiriodd Ieuan Evans at ambell ddiwyg arall y safle, ac fe gytunodd y Cynghorydd James y byddai'r Awdurdod yn cefnogi ymdrech yr ysgol i ehangu



fel y gellir cynnwys tir glas a mannau chwarae pwrpasol ac addas, ynghyd â sefydlu Uned Blynnyddoedd Cynnar. Croesawyd y sylwadau hyn gan lywodraethwyr, rhieni a staff yr ysgol.

Ysgol Gyfun Bro Morgannwg, Y Barri

Planed Plant yn ymweld ag Ysgol Gyfun Bro Morgannwg

Yn ddiweddar fe ymwelodd Criw Planed Plant â'r ysgol. Uchafbwynt y sioe oedd gweld y cyflwynwyr yn tynnu eiddo personol rhai o'r disgyblion o fag ar y llwyfan. Daeth hyn fel sioc enfawr i'r disgyblion. Gallwch ddychmygu wynebau rhai ohonynt wrth weld eu tedi bêr annwyl a'u ffrogiau blodeuog hen ffrasiwn yn cael eu harddangos o flaen ffrindiau. Roeddent yn gegrwth yn wir! Bu cryn rialtwch wrth i'r disgyblion gystadlu'n frwd yn erbyn ei gilydd ac ymateb i sialensau'r cyflwynwyr ifanc. Daeth y criw Cic i ddiddanu'r dorf ac roedd pawb yn dawnsio'n wyllt i rhythmau bywiog y grŵp pop. Gwobrwyd y disgyblion â chrysau T, pêl bownsio, cryno ddisgiau, bagiau a beiros trendi. Rhuthrodd y disgyblion adref i weld eu hunain ar y sgrîn fawr.



Walkathon 2000

Mae disgyblion Ysgol Gyfun Bro Morgannwg wedi llwyddo i godi dros £500 i elusen Sefydliad y Galon Brydeinig eleni. Roeddem fel ysgol yn hynod o falch o ymdrechion ein disgyblion gan fod y daith wedi'i threfnu yn ystod yr argyfwng petrol. Ar ddiwrnod godidog ym mis Medi ymunodd athrawon a phymtheg o ddisgyblion yr ysgol â cherddwyr parod eraill ym Mharc Bute, Caerdydd. Llwyddodd dwy o'r disgyblion i godi dros £100 yr un at yr elusen. Tipyn o gamp yn wir! Cyflwynwyd pob un o'r disgyblion â thystysgrif yn tystio i'w hymroddiad gan Glenda Meakin sy'n gweithio i'r elusen. Mewn seremoni arbennig yn Ysbyty'r Mynydd Bychan, Caerdydd derbyniodd yr ysgol blac gan Rupert Moon i ddiolch i bawb am eu hymdrechion.

Huw Harries

Bu'r ysgol yn hynod ffortunos yn ddiweddar pan ymwelodd Huw Harries capten Tîm Rygbi Penybont a Thîm Rygbi A â'r ysgol. Trefnwyd yr ymweliad gan Wasg Gomer i lansio llyfr *Pac o Straeon* a olygwyd gan Alun Wyn Bevan. Roedd y bechgyn wrth eu boddau yn cael sesiwn hyfforddi gan Huw Harries a thrafod tactegau rygbi. Cynhaliwyd sesiwn o holi ac ateb yn y neuadd wedyn lle y cafodd y disgyblion y cyfle i holi amryfal gwestiynau i Huw. Roedd y gwestiynau treiddgar yn amrywio o'i gefndir, ei brofiadau rygbi a'i fywyd carwriaethol! Wynebodd yr her o ymateb i gwestiynau dros gant ac ugain o ddisgyblion Blwyddyn 7 â'r un arddeliad ag a welir ganddo ar Gae'r Bragdy. Roeddem yn hynod ffodus hefyd o gael Brynmor Williams ac Alun Wyn Bevan hefyd yn rhan o'r panel o westeion. Prynodd llu o'r disgyblion gopiau o'r gyfrol o straeon rygbi am anturiaethau pobl ifanc gan fanteisio ar y cyfle i gael llofnodi eu copiau gan Huw Harries. Edrychwn ymlaen at gael ei groesawu nôl atom yn fuan.



Yr Adran Ieithyddol Modern

Ar 31 Ionawr elwodd y disgyblion o gwmi Almaenes ifanc o'r enw Rebecca Miltch. Ymwelodd hi â'r gwersi Almaeneg er mwyn rhoi cyfle i'r disgyblion ofyn cwestiynau iddi yn Almaeneg ac yna i glywed rhywfaint am yr Almaen a bywyd pobl ifanc yno. Daw Rebecca o dref Upolda yn Thüringen ac ar hyn o bryd mae'n gwneud gwaith gwirfoddol fel nyrs yng Nghaerdydd. Mwynhaodd pawb y profiad o gyfarfod â hi ac roedd hithau wrth ei bodd â'r ysgol, yn enwedig brwdfrydedd a diddordeb y disgyblion a'r neges groeso yn Almaeneg "Willkommen Rebecca". Diolch Mr Jones!

Y CAMPAU dan ofal Thomas Davies

Pêl-rwyd

Dinas - Pencampwyr Clybiau Cenedlaethol

Ar 10 Chwefror cynhaliwyd Pencampwriaeth y Clybiau yn NIAC, Cyncoed gydag 20 o brif glybiau Cymru'n cystadlu. Clwb Dinas, un o nifer o glybiau sy'n chwarae yng Nghyngair Caerdydd a'r Fro oedd deiliaid y Cwpan ac felly 'roedd cryn dipyn o bwysau ar y clwb i wneud yn dda unwaith eto. Chwaraewyd y rownd gyntaf ar ffurf grwpiau gyda Dinas yn fuddugol yn erbyn Treforys (31-7), Trecelyn B (27-8), Ystrad Mynach (24-13) ac Apex (26-7). Cafwyd gêm dipyn galetach yn y rownd o-gynderfynol yn erbyn Bae Colwyn (ennill 24-18) cyn curo Trecelyn A (25-12) yn y rownd gyn-derfynol. 'Roedd y rownd derfynol yn cynnwys yr un timau â'r llynedd - Dinas a Chwbrân. 'Roedd gan Dinas 6 o'i garfan o 8 yng ngharfan Academi Cymru ond 'roedd cryn dipyn o brofiad gan Gwbrân yn enwedig o ran Helen Weston - sydd â'r mwyaf o gapiau dros Gymru. 'Roedd y gêm yn agos iawn drwyddi. Dinas yn aml yn llwyddo i fynd dwy gôl ar y blaen cyn i Gwbrân ddod nôl yn gyfartal. 10-10 oedd y sgôr ar yr egwyl. Cafwyd newid tactegol gan Dinas a bu hynny'n ddigon i sicrhau buddugoliaeth o 19-15, cwpan y pencampwyr a siec o £100! Y nod 'nawr yw ennill y Cynghair hefyd.

Angharad Dafydd-Styles
(Hyfforddwraig Clwb Dinas)



phrofiad. Dalier ati yw'r nôd.

Arbrawf

Bu llwyddiant eithriadol i fenter Sam Hammam i ddod â'r 'sgrin fawr' i Barc Ninian gogyfer â'r gêm yn erbyn Brighton oddi cartre.

Gwelwyd torf o bron 2,500 yn y brif eisteddfa i wyllo'r gêm - a rheiny'n llawn hwyl ac egni - yn frwdfrydig ac yn effro i bob symudiad. Rhyfedd oedd profi'r fath beth a dim un chwaraewr ar y cae ar Barc Ninian.

Rhaid canmol y Cadeirydd am ei weledigaeth.

Howard Spriggs

Y Bêl Hirgron

Ple'r Awn Ni?

Bu'n rhaid inni anfon y geiriau hyn at y Golygydd cyn i Gaerdydd chwarae yn Y Strade yn y Cwpan Cenedlaethol, a noddur bellach gan ein Cymdeithas Adeiladu fwyaf, sef Cwmni'r Dywysogaeth. Y Seithfed Rownd oedd honno, ac anodd oedd proffwydo - yn gywir - pa glwb a'i henillai. Er i'r ddau wneud yn weddol dda yng Nghwpan Ewrop (Cwpan y Cwrw) cyn colli yng Nghaerloyw, ni chawsai'r Cochion fawr o hwyl yn y Cynghair - pedwerydd oeddynt wedi colli wyth o'u pymtheg gornest (27 o bwyntiau). Wedi chwarae tair gornest yn llai, yr oedd gan Gaerdydd 30 o bwyntiau, ac yr oeddynt wedi trechu Llanelli ddechrau Rhagfyr yng Nghaerdydd. Ond clwb y Cwpan yw Llanelli - yn eu cwpwrdd nhw mae'r Tlws, ac yno y buasai un tymor-ar-dded; er y dechrau yn 1972, enillodd Caerdydd ef saith o weithiau, pump o'r rheiny yn negawd yr 80au. Yn y deng mlynedd hynny, ddwywaith yn unig y bu'r rhuban coch o'i amgylch, unwaith ar ôl curo Caerdydd o un pwynt yn 1985, pan y'i henillwyd gan gôl adam y maswr, Gary Pearce, yn niwedd yr ornest. A dychwelyd at y Cynghair, byddai'n rhaid i glwb orffen y tymor ym mhump uchaf y tabl er sicrhau lle yng Nghwpan Ewrop y gaeaf nesaf. Felly, ni allai Llanelli fod yn sicr o fod ymhlith pedwar clwb-ar-hugain Cystadleuaeth Heineken â phum gornest i'w chwarae, ac un o'r rheiny'n erbyn Caerdydd, Mai 5ed, wythnos cyn Rownd Olaf Cwpan Cymru. Disgwyliwyd gornest danbaid ar Y Strade ym mis Chwefror yn Seithfed Rownd y Cwpan, ac fe fyddai'r un ar Fai 5ed cyn danbeithied bob tamaid pe dibynnai lle'r Cochion yng Nghwpan Ewrop ar ei chanlyniad.

Peth rhyfedd oedd gweld Caerdydd yn dirywio ar ôl trechu'r Saraseniaid ddwywaith yng Nghwpan Ewrop, ac arddangos safon uchel o rygbi gartref wrth chwalu Wlster. Nos Sadwrn rhwng y ddwy ornest ryngwladol, enillodd Pen-y-bont yma o dri chais yn erbyn un (24-19) a chodi'n nes at y pum safle uchaf. Yr oedd y cae'n wlyb ac yn lleidiog, ond gwelwyd safon uchel o chwarae'n enwedig yn yr hanner olaf, ac yn enwedig gan Ben-y-bont, â'u capten, Huw Harries, yn eu harwain yn gall. Tybed ai hwnnw fyddai mewnwr Cymru'n erbyn y Gwyddelod pe na allai Howley chwarae ar ôl ei anaf yng Nghaeredin? Fe haeddai'r anrhydedd, beth bynnag.

Proffwydais dymor da i Gaerdydd wedi eu gweld yn curo Caerlŷr yma o 17 bwynt i 10 ym mis Awst i ennill Tlws Jewson, a rhan o'r broffwydoliaeth honno oedd yr enillent Gwpan Ewrop. Na chredwch byth broffwydoliaeth Golygydd Campau'r Dinesydd.



Pêl-droed

Pryder ar ôl ychydig o aflwyddiant - tybed?

Yn ystod tymor hir a chystadleuol iawn mae cyfnod o aflwyddiant yn sicr o ddod i ran pob tîm llwyddiannus - ac fe ddigwyddodd hyn i dîm Caerdydd yn ddiweddar.

Ar ôl colli ond unwaith o fewn 15 gêm a hynny yn y munudau olaf yn Plymouth - fe fethwyd â sgorio mewn tair gêm yn olynol gan rannu'r pwyntiau yn erbyn Rochdale (gartre) a cholli o'r unig gôl yn Brighton a Blackpool.


Mae record y tîm gartre ar Barc Ninian gyda'r ore yn yr adran. Caerdydd yw'r unig dîm o'r 3ed adran sy' heb golli ar ei faes ei hun - ond mae'i record oddi cartre yn peri peth gofid i dîm sydd â'i fryd ar orffen y tymor ymhlith y tri ucha - a dyrchafiad sicr yn ei sgîl.

Mae'n anodd canolbwyntio ar reswm am hyn ond yn sicr bu colli dau o'i chwaraewyr allweddol sef Marc Bonner (angor ganol y cae) a chyflymdra Robert Eamshaw (ei brif sgoriwr ag 21 gôl) yn arwyddocaol.

Bu ychydig o anniddigrwydd hefyd ymhlith y cefnogwyr am gynnwys y tîm o dro i dro - mae rhai o'r farn bod gofyn i ormod o chwaraewyr chwarae allan o'u safle naturiol ond gall neb wadu i Alan Cork ac Ian Butterworth fod yn llwyddiant ysgubol - ac wedi'r cyfan, nhw a wŷr ore am y chwaraewyr ar ôl eu hyfforddi'n ddyddiol - ac yn y 'gêm fodern' mae gofyn am chwaraewyr â'r gallu i chwarae mewn mwy nag un safle.

Mae 'na ddigon o gemau'n weddill i sicrhau'r pwyntiau angenrheidiol - ac mae digon o allu o fewn y garfan bresennol i sicrhau hyn - er buasai chwaraewr i ganol y cae yn gaffaeliad - a dylid cofio o hyd bod nifer o'r chwaraewyr yn ieuanc o ran oed a





yng ngofal
Lynne Davies

On'd oedd hi'n braf gweld yr haul ym mis Chwefror - efallai bydd hi'n bwrw glaw eto erbyn ichi ddarllen yr erthygl 'ma, ond mae haul yn Chwefror yn rhywbeth arbennig, yn ein hatgoffa nad yw'r gwanwyn yn bell.

Rydych chi wedi clywed am bobl yn dioddef gyda syndrom SAD (*Seasonal Affective Disorder*) yn y gaeaf. Wel, os ydy'ch tiwtor yn cwyno nad ydych chi wedi bod yn gwneud eich gwaith cartre yn ddiweddar, efallai fod chi'n gallu dweud wrtho bod chi'n dioddef o'r fersiwn Cymraeg, sef TRIST (Teimlo'n Rhy Isel i Sgrifennu Tudalen). Ond cofiwch fod teimlo'n anhapus wedi bod yn hwb i nifer o awduron a beirdd enwog Cymru i fynd ati a chreu rhai o gampweithiau'r iaith Gymraeg. Roedd TH Parry Williams a John Gwilym Jones, ill dau, yn mynnu bod dagrau yn hanfodol i greu llenyddiaeth; roedd Kate Roberts yn sgrifennu i leddfu'r poen ar ôl colli yn gyntaf ei brawd ac wedyn ei gŵr; canodd Ceiriog yn ei hiraeth yn ninas Manceinion am Nant y Mynydd a'r Mynyddoedd Mawr a breuddwydiodd Cynan yn wyneb geiriau llym y beirniaid am fod "yn hen a pharchus" a byw mewn bwthyn heb ddim i'w aflonyddu ond "creigiau Aberdaron/a thonnau gwyllt y môr".

Ond un o fy hoff gerddi yw un a sgrifennwyd gan Gerallt Lloyd Owen ar ddechrau'r saithdegau. Er iddo fod yn edrych yn aeafol iawn ar yr iaith Gymraeg ar ôl Seremoni'r Arwisgiad yng Nghastell Caernarfon ac ymateb llugoer y Cymry i bob ymdrech dros yr iaith mae e'n mynnu gweld yr haul. Mae'r teitl, "Y Bardd a'r Chwyldro" yn gwneud hi'n glir mai am rywbeth y tu hwnt i'r gaeaf mae e'n sôn.

*Y dibryder aderyn
A di-hid o'th wae dy hun
Ar farugog oer frigyn,*


*Trist dy glywed mor ddedwydd.
Pam na cheni di i'r dydd,
I'r gaeaf sy'n dragywydd?*

*Oni weli anialwch
Y waun draw dan eira'n drwch
A gwlad heb iddi glydwch?*

*"Gwelaf aeaf a newyn
Ein daear wag ond er hyn
Y mae haf ond ei 'mofyn."*

(*Cerddi'r Cywilydd*, Gwasg Gwynedd, 1972)

Mae pawb sy'n dysgu'r Gymraeg yn rhan o'r chwyldro. Daliwch ati! 'Y mae haf ond ei 'mofyn'.



Geirfa

hwb - *incentive*
campweithiau - *masterpieces*
ill dau - *both of them*
hanfodol - *essential*
lleddfu - *ease*
llym - *sharp*
beirniaid - *critics*
aflonyddu - *disturb*
yn aeafol - *wintery*
arwisgiad - *investiture*
llugoer - *lukewarm*
chwyldro - *revolution*

dibryder - *unworried*
di-hid - *careless (uncaring)*
gwae - *woe*
barugog - *frosty*
brigyn - *twig*
dedwydd - *hapus*
pam na cheni - *why don't you sing*
dragywydd - *eternal*
anialwch - *desert*
gwaun - *heath*
clydwch - *warmth*
newyn - *hunger*
'mofyn - *to look for*

Talon Cymru Cyf.

Angen cyfrifiadur neu feddalwedd?
I'r plant / cartref / busnes / swyddfa?

Am gyngor anibynnol
a gwasanaeth proffesiynol
Ffôn 029 2055 5978
e.bost Wyn.Talon@BTinternet.com

DEINTYDD

Yn cynnig triniaeth
o dan y Gwasanaeth Iechyd (NHS)
a thriniaeth annibynnol.

Cysylltwch â:

HYWEL SAMUEL, B.D.S. (Cymru)
RHODRI EVANS, B.D.S. (Cymru)
28 Heol Eglwys Fair, (drws nesaf i McDonald's)
Canol Caerdydd.
Ffôn: 029 2037 1393

TRYDANWR

gyda dros 20 mlynedd o brofiad
Ailweirio, gosod systemau larwm a
chawodydd

PRISIAU RHESYMOL

Ffoniwch
Caerwyn Davies
ar **029 20868208**
neu **0468 973229**

AEGIS YMGYNGHORWYR ARIANNOL ANNIBYNNOL CYF

Am gyngor ariannol annibynnol cysylltwch â

Geraint B. Llewelyn
LL.B. B.A(ADD) MLIA (DIP)

291 Ffordd Cyncoed, Cyncoed,
Caerdydd, CF23 6PA
FFÔN: (029) 20228223 FFACS: (029) 20761309

AELOD O DBS RHEOLAETH ARIANNOL CCC
A ORUCHWILIR GAN AWDURDOD BUDDSODDI PERSONOL

PONTEIFI

8.25PM
BOB NOS SUL
YN CYCHWYN CHWFROR 25

TRANS1888/889

S4C

Drama gyfres newydd sbon sy'n cyfuno'r ysgafn, y digrif a'r dwys. Ymunwch â theulu unigryw'r Morrisiaid sy'n rhedeg Clwb Golff Ponteifi, ym mherfeddion gorllewin Cymru.



EISTEDDFOD GENEDLAETHOL DINBYCH A'R CYLCH

5 - 10 Awst 2001

Aros yng Ngwesty'r Beaufort Park
5 noson Cinio, gwely a brecwast

£249.00 yr un

Cludiant ddwy ffordd o Gaerdydd

Cewch eich trosglwyddo yn ddyddiol i Faes yr
Eisteddfod ble fydd ein staff ar ein stondin yn
barod i'ch croesawu.

Am fwy o fanylion cysylltwch â: Seren Arian
13 Y Maes, Caernarfon LL55 2NF
Ffôn: 01286 672333

Cwsmeriaid Presennol - Capel Crwys

Problemau? Cyfrifiaduro?



Gwersi i ddysgwyr

Acennau Cymraeg

Prosesu geiriau

Datrys problemau
Safleoedd ar y We



Gwaith graffeg

Diagramau



Taflenni gwaith

Adfer lluniau

(029) 2089 2520

Y Cwmni Cyfrifiaduro Proffesiynol
www.secretcom.co.uk